CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 31 IONAWR 2019 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 31 JANUARY 2019, |

Fe’ch gwysir i fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND ar Dydd Iau, 31 Ionawr 2019 am 4.30 pm i drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

25 Ionawr 2019

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ ** mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Teyrngedau i'r Cynghorydd Jim Murphy** | 4.30 pm | 15 mun |
| **2** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.* | 4.45 pm | 5 mun |
| **3** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| **4** | **Cofnodion** *(Tudalennau 9 - 44)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018 fel gwir gofnod.* | | |
| **5** | **Cwestiynau Cyhoeddus** *(Tudalennau 45 - 48)*<br><br>*Derbyn cwestiynau yr hysbyswyd amdanynt ymlaen llaw gan Aelodau'r Cyhoedd.* | 4.50 pm | 5 mun |
| **6** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.55 pm | 5 mun |
| **7** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 5.00 pm | 5 mun |
| **8** | **Cyhoeddi swydd Cynghorydd (Ward Trelái) wag** *(Tudalennau 49 - 50)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr* | 5.05 pm | 5 mun |
| **9** | **Penodi Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol** *(Tudalennau 51 - 52)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.* | 5.10 pm | 5 mun |
| **10** | **Strategaeth Economaidd Drafft** *(Tudalennau 53 - 190)*<br><br>*Ystyried y Strategaeth Economaidd Drafft cyn i'r Cabinet ystyried y ddogfen derfynol.* | 5.15 pm | 30 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11** | **Strategaeth Llety i Bobl Hŷn Caerdydd 2019- 2023** *(Tudalennau 191 - 270)*<br><br>*Ystyried y Strategaeth Llety i Bobl Hŷn Drafft cyn i'r Cabinet ystyried y ddogfen derfynol.* | 5.45 pm | 30 mun |
| **12** | **Canllaw Cynllunio Atodol** *(Tudalennau 271 - 310)*<br><br>*Cynnig y Cabinet.* | 6.15 pm | 20 mun |
| **13** | **Datganiadau** *(Tudalennau 311 - 34)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.35 pm | 45 mun |
| **Toriad** | | | |
| **Hysbysiad o Gynnig** | | | |
| **14** | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Joe Carter<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Ashley Wood<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod lleihau allyriadau carbon mewn cartrefi yn creu manteision ariannol i'r meddianwyr a manteision amgylcheddol i gymdeithas.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:<br><br>• Targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyau tŷ gwydr gan o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn gwaelodlin 1990.<br>• bod 7.5% o allyriadau Cymru'n dod o adeiladau preswyl.<br>• bod 23% o gartrefi Cymru yn gwbl dlawd.<br>• Llwyddiant sefydliadau megis Prifysgol Caerdydd yn dangos sut gellir adeiladu cartrefi dim carbon ar gost isel.<br><br>Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:-<br><br>1. Ymrwymo i sicrhau bod cartrefi'r Cyngor a adeiladir ar ôl 2022 yn rhai dim carbon gyda chyflenwadau glan o ynni ac effeithlonrwydd ynni uchel yn rhan o'r dyluniadau o'r dechrau.<br>2. Datblygu Canllaw Cynllunio Atodol i gynyddu nifer y cartrefi preifat a adeiladir i safonau dim carbon. | 7.30 pm | 30 mun |
| **15** | **Cynnig 2** | 8.00 pm | 30 mun |

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Joel Williams

Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Tim Davies

Mae Bws Caerdydd yn is-gorff y mae Cyngor Caerdydd yn berchen arno ac felly Trethdalwyr Caerdydd sy'n berchen arno ac fel Cyngor mae dyletswydd arnom i sicrhau bod Bwrdd Bws Caerdydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio gyda heriau busnes yn y presennol ac yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae Bwrdd Bws Caerdydd yn cynnwys 11 Cyfarwyddwr ac mae hefyd Ysgrifennydd Cwmni; mae pump ohonynt yn Gynghorwyr Sirol Anweithredol sydd wedi'u penodi gan y Cyngor Llawn.

Ym mis Tachwedd 2018 cytunodd y Cyngor Llawn yn ffurfiol i newid nifer y Cynghorwyr Sirol o saith i bump i alluogi penodi dau unigolyn annibynnol ar sail eu sgiliau a phrofiad proffesiynol ym meysydd fel rheoli ariannol a chyffredinol; llywodraethu corfforaethol; a pholisi a/neu reoli trafnidiaeth.

Er mwyn sicrhau bod gan Fws Caerdydd yr hyn sydd ei angen i ddelio gyda heriau busnes yn y presennol a'r dyfodol mae'r Cyngor yn cynnig y canlynol yn ffurfiol:

- Cynigir lleihau nifer y Cynghorwyr sy'n cael eu penodi'n Gyfarwyddwyr Anweithredol o bump i un er mwyn penodi pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol ychwanegol nad ydynt yn Aelodau Etholedig y Cyngor nac yn gyflogeion i'r Cyngor na'r Cwmni.

Yn unol ag arfer da o ran llywodraethu corfforaethol, byddai'r cynnig i benodi pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol ychwanegol yn ategu arbenigedd aelodau'r Bwrdd, gan greu herio deongliadol a dwyn rheolwyr i gyfrif.

- Cynigir felly fod y Cyngor, fel y rhanddeiliad, yn ysgrifennu'n ffurfiol i'r Cwmni gan roi gwybod iddo am y newidiadau arfaethedig i'r Erthyglau, y gall y Cwmni eu hystyried yn ffurfiol wedyn yn unol â phroses wneud penderfyniadau'r Cwmni.

  Fel yr unig randdeiliad, gall y Cyngor ofyn bod newid o'r fath yn cael ei wneud i'r Erthyglau.

Ni fyddai'r ddarpariaeth hon yn rhwystro gallu unrhyw Gyngor yn y dyfodol rhag penodi hyd at saith Cynghorydd fel Cyfarwyddwyr Anweithredol pe bai am wneud hynny. Rhaid i'r flaenoriaeth ar yr adeg hon fod ar benodi Cyfarwyddwyr Anweithredol ar sail eu sgiliau a phrofiad proffesiynol yn unig ond teimlir y dylai fod un Cynghorydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sirol o hyd. | | |
| **16** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 8.30 pm | 60 mun |
| **17** | **Materion Brys** | 9.30 pm | 5 mun |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **18** | **Penodiadau i'r Pwyllgor***(Tudalennau 345 - 346)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | 9.35 pm | 5 mun |
| **19** | **Penodi Cynrychiolwyr i Gyrff Allanol** *(Tudalennau 347 - 348)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |
| **20** | **Penderfyniad Brys: Ymyrraeth Ysgol Gynradd Gatolig Sant Pedr** *(Tudalennau 349 - 350)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.*<br>*Adroddwyd i'r Cyngor er gwybodaeth dan Reol Gweithdrefn Graffu 13(a) Cyfansoddiad Caerdydd.* | | |
| **21** | **Penderfyniad Brys: Cerbydau'r Strydlun**<br>*(Tudalennau 351 - 352)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.*<br>*Adroddwyd i'r Cyngor er gwybodaeth dan Reol Gweithdrefn Graffu 13(a) Cyfansoddiad Caerdydd.* | | |
| **22** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |